



# Y Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010

2010 mccc 5

Nodiadau Esboniadol

# Carers Strategies (Wales) Measure 2010

2010 nawm 5

Explanatory Notes

£5.75

# Y MESUR STRATEGAETHAU AR GYFER GOFALWYR (CYMRU) 2010

## NODIADAU ESBONIADOL

### CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 21 Medi 2010 ac a gymeradwywyd gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 10 Tachwedd 2010. Fe'u lluniwyd gan Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Mesur. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Mesur ond nid ydynt yn rhan ohono.

### SYLWADAU AR YR ADRANNAU

#### Adran 1 - Gofalwyr

2. Mae'r adran hon yn diffinio gofalwr a'r person y gofelir amdano.
3. Mae is-adran (1) yn diffinio gofalwr fel rhywun sy'n darparu (neu'n bwriadu darparu) cryn dipyn o ofal yn rheolaidd i blentyn anabl neu i unigolyn 18 oed neu drosodd. At y dibenion hyn, cymerir bod ystyr "plentyn anabl" yr un fath ag ystyr "*disabled child*" yn Rhan 3 o Ddeddf Plant 1989.
4. Mae is-adran (2) yn eithrio o ddiffiniad gofalwr y rhai sy'n cael eu cyflogi fel gofalwyr, neu sy'n cyflawni eu dyletswyddau fel gofalwyr yn ffurfiol drwy gyfrwng cytundeb ffurfiol gydag unrhyw berson arall. Mae'r rhai sy'n ofalwyr gwirfoddol i unrhyw gorff, er enghraifft elusen, wedi eu heithrio hefyd o'r diffiniad.
5. Mae is-adran (3) yn diffinio'r person y gofelir amdano fel person y mae gofal yn cael ei ddarparu iddo gan ofalwr, neu y bwriedir i'r gofal hwnnw gael ei roi i'r person hwnnw gan ofalwr.

#### Adran 2 - Dyletswydd i lunio strategaeth

6. Mae'r adran hon yn darparu bod dyletswydd yn cael ei rhoi ar awdurdodau perthnasol i lunio strategaeth mewn perthynas â gofalwyr.
7. Mae is-adran (1) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy gyfrwng rheoliadau, ei gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol neu ddau neu ragor o awdurdodau perthnasol lunio a chyhoeddi strategaeth sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod yn gweithio neu sut y bydd yr awdurdodau'n cydweithio i ddarparu gwybodaeth a chyingor sy'n briodol i ofalwyr, a hefyd sut y byddant yn cydweithio i sicrhau y bydd ymgynghori â gofalwyr cyn iddynt benderfynu pa wasanaethau sydd i'w darparu i ofalwr neu'r person y gofelir amdano.

# **CARERS STRATEGIES (WALES) MEASURE 2010**

---

## **EXPLANATORY NOTES**

### **INTRODUCTION**

1. These Explanatory Notes are for the Carers Strategies (Wales) Measure 2010 which was passed by the National Assembly for Wales on 21 September 2010 and approved by Her Majesty in Council on 10 November 2010. They have been prepared by the Directorate General for Health and Social Services of the Welsh Assembly Government to assist the reader of the Measure. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Measure but are not part of it.

### **COMMENTARY ON SECTIONS**

#### **Section 1 – Carers**

2. This section defines carer and the person cared for.
3. Subsection (1) defines carer as someone who provides (or intends to provide) a significant amount of care, on a regular basis, for a disabled child or for an individual aged 18 or over. For these purposes, the meaning of “disabled child” is taken to be the same as in Part 3 of the Children Act 1989.
4. Subsection (2) excludes from the definition of carer those who are employed as carers, or carry out their duties as a carer on a formal basis by way of a formal agreement with any other person. Those who are volunteer carers for any body, for example a charity are also excluded from the definition.
5. Subsection (3) defines the person being cared for as a person who is provided care by a carer, or it is intended that care will be given to that person by a carer.

#### **Section 2 – Duty to produce strategy**

6. This section provides for a duty to be placed on relevant authorities to produce a strategy in relation to carers.
7. Subsection (1) provides that the Welsh Ministers may by way of regulations require a relevant authority or two or more relevant authorities to prepare and publish a strategy setting out how the authority will work or the authorities will work together to provide information and advice which is appropriate to carers, and also how they will work together to ensure that carers are consulted before they decide what services are to be provided to a carer or the person being cared for.
8. In addition, the strategy must set out how the relevant authorities will ensure that before they make directions of a general nature regarding the provision of services to carers and the persons they care for, they will consult carers before making such decisions.
9. Subsection (2) provides that each relevant authority which has a duty under subsection (1) to prepare and publish a strategy must also implement the strategy.

8. Yn ychwanegol, rhaid i'r strategaeth nodi sut y bydd yr awdurdodau perthnasol yn sicrhau, cyn iddynt wneud cyfarwyddiadau cyffredinol eu natur ynghylch darparu gwasanaethau i ofalwyr a'r personau y maent yn gofalu amdanynt, y byddant yn ymgynghori â gofalwyr cyn gwneud penderfyniadau o'r fath.
9. Mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid i bob awdurdod perthnasol y mae dyletswydd arno o dan is-adran (1) i lunio a chyhoeddi strategaeth weithredu'r strategaeth hefyd.
10. Mae is-adran (3) ar hyn o bryd yn diffinio awdurdodau perthnasol fel a ganlyn—
  - (a) unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42);
  - (b) unrhyw ymddiriedolaeth GIG a sefydlwyd o dan adran 18 o'r Ddeddf honno;
  - (c) unrhyw Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlwyd o dan adran 22 o'r Ddeddf honno;
  - (d) unrhyw gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.
11. **Mae is-adran (4) yn egluro nad yw o bwys a yw'r gwasanaethau'n cael eu darparu gan awdurdod perthnasol neu gan berson arall (er enghraifft, o dan drefniadau contractio allan).**
12. Mae is-adran (5) yn diffinio awdurdod cyfrifol.

### **Adran 3 – Gwybodaeth briodol a chyngor priodol**

13. Mae is-adran (1) yn diffinio'r term “gwybodaeth briodol a chyngor priodol” sydd wedi ei gynnwys yn adran 2(1)(a) o'r Mesur hwn.
14. Mae is-adran (2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu ymhellach yr hyn a olygir wrth “gwybodaeth briodol a chyngor priodol” at ddibenion adran 2(1)(a) o'r Mesur hwn.

### **Adran 4 – Ymgynghori**

15. Mae adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu'n fanylach y camau y mae'n rhaid neu y caniateir i awdurdodau perthnasol eu cymryd i gyflawni eu dyletswydd i ymgynghori â gofalwyr sydd wedi ei chynnwys yn adran 2(1) (b) ac (c) o'r Mesur hwn.

### **Adran 5 – Darpariaeth bellach ynghylch strategaethau**

16. Mae is-adran (1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaethau pellach ynghylch sut y mae'r awdurdod perthnasol neu'r awdurdodau perthnasol i lunio a chyhoeddi eu strategaethau o dan adran 2 o'r Mesur.
17. Mae is-adran (2) yn rhestru rhai enghreifftiau o'r darpariaethau pellach y caiff Gweinidogion Cymru eu gwneud mewn rheoliadau a wneir o dan is-adran (1) ynglŷn â llunio a chyhoeddi strategaethau.

10. Subsection (3) currently defines relevant authorities as –
  - (a) any Local Health Board established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (c. 42);
  - (b) any NHS trust established under section 18 of that Act;
  - (c) any Special Health Authority established under section 22 of that Act;
  - (d) any county council or county borough council.
11. Subsection (4) makes it clear that it does not matter whether the services are provided by a relevant authority or by another person (for example, under contracting-out arrangements).
12. Subsection (5) defines responsible authority.

### **Section 3 – Appropriate information and advice**

13. Subsection (1) defines the term “appropriate information and advice” which is contained in section 2(1) (a) of this Measure.
14. Subsection (2) confers on the Welsh Ministers the power to make regulations further specifying what is meant by “appropriate information and advice” for the purposes of section 2(1)(a) of this Measure.

### **Section 4 – Consultation**

15. This section confers on Welsh Ministers the power to make regulations specifying in further detail the steps which relevant authorities must or may take in satisfying their duty to consult carers which is contained in section 2(1) (b) and (c) of this Measure.

### **Section 5 – Further provision about strategies**

16. Subsection (1) confers on Welsh Ministers the power to make regulations containing further provisions as to how the relevant authority is or relevant authorities are to prepare and publish their strategies under section 2 of the Measure.
17. Subsection (2) lists some examples of the further provisions the Welsh Ministers may make in regulations made under subsection (1) with respect to the preparation and publication of strategies.
18. Subsection (3) provides that, where there is more than one responsible authority for a strategy, the Welsh Ministers may designate one of them as being the lead authority for each strategy, the designation of lead authority being for the purposes of co-ordinating and overseeing the preparation, publication and any subsequent review of the strategy.

### **Section 6 – Submission of draft strategy to Ministers**

19. This section details how a responsible authority or the lead authority, if there is more than one relevant authority (or, where there is no lead authority, the responsible authorities acting together) are to submit a draft strategy to the Welsh Ministers.

18. Mae is-adran (3) yn darparu, pan fo mwy nag un awdurdod cyfrifol ar gyfer strategaeth, y caiff Gweinidogion Cymru ddynodi un ohonynt yn awdurdod arweiniol ar gyfer pob strategaeth, ac y bydd dynodi awdurdod arweiniol yn ddynodi at ddibenion cydlynu a goruchwyllo gwaith paratoi a chyhoeddi'r strategaeth a chydlynu a goruchwyllo unrhyw adolygiad dilynol ohoni.

#### **Adran 6 - Cyflwyno strategaeth ddrafft i Weinidogion Cymru**

19. Mae'r adran hon yn rhoi manylion ynghylch sut y mae awdurdod cyfrifol neu'r awdurdod arweiniol, os oes rhagor nag un awdurdod perthnasol (neu, pan nad oes awdurdod arweiniol, yr awdurdodau cyfrifol yn gweithredu ar y cyd) i gyflwyno strategaeth ddrafft i Weinidogion Cymru.
20. Mae is-adran (1) yn darparu dyletswydd i gyflwyno'r strategaeth ar ffurf drafft i Weinidogion Cymru.
21. Mae is-adran (2) yn rhoi manylion ynglŷn â'r hyn y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei wneud ar ôl iddynt gael y strategaeth ddrafft. Rhaid iddynt naill ai hysbysu'r awdurdod cyfrifol neu'r awdurdodau arweiniol eu bod wedi eu bodloni bod y strategaeth ddrafft yn cydymffurfio â'r gofynion a osodir gan y Mesur hwn, neu os nad ydynt wedi eu bodloni, yna bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi unrhyw gyfarwyddiadau y gwelant yn dda i'r awdurdodau cyfrifol fel bod modd wedyn i'r awdurdodau cyfrifol sicrhau bod y strategaeth yn cydymffurfio â'r gofynion a osodir gan y Mesur hwn.
22. Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i'r awdurdod neu'r awdurdodau cyfrifol beidio â chyhoeddi strategaeth ar ei ffurf derfynol, hyd nes y byddant wedi anfon strategaeth ddrafft at Weinidogion Cymru, a bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y strategaeth ddrafft yn cydymffurfio â gofynion y Mesur hwn, neu os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl iddynt gael strategaeth ddrafft, wedi dyroddi cyfarwyddiadau sy'n datgan beth y mae'n rhaid i'r awdurdodau cyfrifol ei wneud er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn cydymffurfio â gofynion y Mesur hwn, bod yr awdurdodau cyfrifol wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hynny.
23. Mae is-adran (4) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu'n fanylach sut a phryd y mae'n rhaid cydymffurfio â darpariaethau adran 6 hon.

#### **Adran 7 - Cyfle i'r cyhoedd gael gweld y strategaeth**

24. Mae'r adran hon yn darparu bod copi o strategaeth pob awdurdod cyfrifol ar gael i'w archwilio, yn ddi-dâl, yn ei brif swyddfa.

#### **Adran 8 - Pŵer i ychwanegu awdurdodau perthnasol pellach**

25. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiwygio'r rhestr o "awdurdodau perthnasol" a nodir yn y diffiniad yn adran 2(3) drwy ychwanegu cyrff neu awdurdodau pellach neu ddisgrifiadau o gorff neu awdurdod pellach.

20. Subsection (1) provides a duty to submit the strategy in draft to the Welsh Ministers.
21. Subsection (2) details what the Welsh Ministers must do upon receipt of the draft strategy. They must either inform the responsible authority or authorities that they are satisfied that the draft strategy complies with the requirements imposed by this Measure, or if they are not satisfied, the Welsh Ministers will then give such directions as they think fit to the responsible authorities so that the responsible authorities will then be able to ensure that the strategy does comply with the requirements imposed by this Measure.
22. Subsection (3) provides that the responsible authority or authorities must not publish a strategy in its final form, until such time as they have sent a draft strategy to the Welsh Ministers, and the Welsh Ministers are satisfied that the draft strategy complies with the requirements of this Measure, or if the Welsh Ministers upon receipt of a draft strategy, have issued directions stating what the responsible authorities must do in order to ensure that the strategy does comply with the requirements of this Measure, that such directions have been complied with.
23. Subsection (4) confers on the Welsh Ministers the power to make regulations specifying in further detail how and when the provisions of this section 6 must be complied with.

#### **Section 7 - Public access to strategy**

24. This section provides for a copy of the strategy of each responsible authority to be made available for inspection, free of charge, at its principal office.

#### **Section 8 - Power to add further relevant authorities**

25. This section gives the Welsh Ministers a power, by order, to amend the list of “relevant authorities” set out in the definition at section 2(3) by adding further bodies or authorities or descriptions of body or authority.

#### **Section 9 - Amendment to the Local Authority Social Services Act 1970**

26. This section adds the Carers Strategies (Wales) Measure 2010 to the list of enactments at Schedule 1 of the Local Authority Social Services Act 1970. The 1970 Act makes provision concerning the exercise of social services functions, including a requirement that Welsh local authorities in exercising their social services functions comply with guidance and directions issued by the Welsh Ministers. The inclusion of the Measure at Schedule 1 of the Act ensures that local authority functions under the Measure are social services functions for the purposes of the Act.

#### **Section 10 - Orders and regulations**

27. This section contains general provision about subordinate legislation (orders and regulations) made under this Measure.
28. Subsection (1) provides that where the Welsh Ministers are empowered by the Measure to make orders or regulations, these are to be made by statutory instrument. This means that the provisions of the Statutory Instrument Act 1946 are to be applied to such orders and regulations, including requirements about publication.

### **Adran 9 – Diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970**

26. Mae'r adran hon yn ychwanegu Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 at y rhestr o ddeddfiadau yn Atodlen 1 Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970. Mae Deddf 1970 yn gwneud darpariaeth ynghylch arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys gofyniad bod awdurdodau lleol Cymru wrth iddynt arfer eu swyddogaethau cymdeithasol yn cydymffurfio â chanllawiau a chyfarwyddiadau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru. Wrth gynnwys y Mesur yn Atodlen 1 i'r Ddeddf, mae'n sicrhau bod swyddogaethau awdurdodau lleol o dan y Mesur yn swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol at ddibenion y Ddeddf.

### **Adran 10 – Gorchmynion a rheoliadau**

27. Mae'r adran hon yn cynnwys darpariaeth gyffredinol ynghylch is-ddeddfwriaeth (gorchmynion a rheoliadau) a wneir o dan y Mesur hwn.
28. Mae is-adran (1) yn darparu, pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu galluogi gan y Mesur i wneud gorchmynion neu reoliadau, eu bod i'w gwneud drwy offerynnau statudol. Mae hyn yn golygu bod darpariaethau Deddf Offerynnau Statudol 1946 i'w cymhwyso i'r gorchmynion a'r rheoliadau hynny, gan gynnwys gofynion ynghylch eu cyhoeddi.
29. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff gorchmynion neu reoliadau a wneir o dan y Mesur hwn wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol a chânt gynnwys darpariaethau cysylltiedig, darpariaethau atodol, darpariaethau canlyniadol, darpariaethau darfodol, darpariaethau trosiannol neu ddarpariaethau arbed.
30. Mae is-adran (3) yn darparu y bydd gorchmynion a rheoliadau a wneir o dan y Mesur yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac mae is-adrannau (4) a (5) yn darparu na fydd is-adran 3 yn gymwys mewn perthynas â gorchmynion a wneir o dan adran 8 o'r Mesur, nac mewn perthynas â'r set gyntaf o reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan bob un o adrannau 2(1), 3(2), 4, 5(1) a 6(4).

### **Adran 11 – Cychwyn**

31. Daw'r Mesur i rym drwy i Weinidogion Cymru wneud Gorchmynion Cychwyn.

### **Adran 12 – Enw byr**

32. Mae'r adran hon yn pennu enw'r Mesur yn Fesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010.



29. Subsection (2) provides that orders or regulations made under this Measure may make different provision for different purposes and may include incidental, supplementary, consequential, transitory or transitional or saving provisions.
30. Subsection (3) provides that orders or regulations made under the Measure will be subject to the negative procedure whilst subsections (4) and (5) provide that subsection 3 does not apply in relation to an order made under section 8 of the Measure, or the first set of regulations made by the Welsh Ministers under each of sections 2(1), 3(2), 4, 5(1) and 6(4).

### **Section 11 – Commencement**

31. The Measure will come into force by the Welsh Ministers making a Commencement Order.

### **Section 12 – Short title**

32. This section establishes the Measure’s title as the Carers Strategies (Wales) Measure 2010.

## **RECORD OF PROCEEDINGS IN NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

The following table sets out the dates for each stage of the Measure’s passage through the National Assembly for Wales. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Measure can be found on the National Assembly for Wales’ website at:

[http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/bus\\_legislation\\_meas-cs.htm](http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/bus_legislation_meas-cs.htm)

<b>Stage</b>	<b>Date</b>
Introduced	25 January 2010
Stage 1 - Debate	8 June 2010
Stage 2 Scrutiny Committee – consideration of amendments	8 July 2010
Stage 3 Plenary – consideration of amendments	21 September 2010
Stage 4 Approved by the Assembly	21 September 2010
Royal Approval in Privy Council	10 November 2010

## **COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau a'r cyfeiriadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Mesur hwn drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir dod o hyd i Gofnod y Trafodion a gwybodaeth bellach ar hynt y Mesur hwn ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn: [http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/bus\\_legislation\\_meas-cs.htm](http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/bus_legislation_meas-cs.htm)

<b>Cyfnod</b>	<b>Dyddiad</b>
Cyflwynwyd	25 Ionawr 2010
Cyfnod 1 - Dadl	8 Mehefin 2010
Cyfnod 2 - Y Pwyllgor Craffu- ystyried gwelliannau	8 Gorffennaf 2010
Cyfnod 3 - Dadl yn y Cyfarfod Llawn - ystyried gwelliannau	21 Medi 2010
Cyfnod 4 - Cymeradwywyd gan y Cynulliad	21 Medi 2010
Y Gymeradwyaeth Frenhinol yn y Cyfrin Gyngor	10 Tachwedd 2010

© Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.



**Cyhoeddwyd gan (The Stationery Office)**  
ac mae ar gael oddi wrth:

**Online**  
[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)

**Mail, Telephone, Fax & E-mail**  
TSO  
PO Box 29, Norwich NR3 1GN  
Archebion / ymholiadau ffôn 0870 600 5522  
Archebion ffacs 0870 600 5533  
[book.orders@theso.co.uk](mailto:book.orders@theso.co.uk)  
<http://www.ukstate.com>

**Siopau Llyfrau The Stationery Office**  
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD  
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401

**The Parliamentary Bookshop**  
12 Bridge Street, Parliament Square,  
Llundain SW1A 2JX  
Archebion dros y ffôn/ Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890  
Archebion ffacs: 020 7219 3866  
E-bost: [bookshop@parliament.uk](mailto:bookshop@parliament.uk)  
Gwefan: <http://www.bookshop.parliament.uk>

**TSO @ Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill**

**Published by TSO (The Stationery Office)**  
and available from:

**Online**  
[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)

**Mail, Telephone, Fax & E-mail**  
TSO  
PO Box 29, Norwich NR3 1GN  
General enquiries: 0870 600 5522  
Order through the Parliamentary Hotline *Lo-call* 0845 7 023474  
Fax orders: 0870 600 5533  
E-mail: [customer.service@tso.co.uk](mailto:customer.service@tso.co.uk)  
Textphone: 0870 240 3701

**TSO Shops**  
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD  
028 9023 8451 Fax 028 9023 5401

**The Parliamentary Bookshop**  
12 Bridge Street, Parliament Square,  
London SW1A 2JX  
Telephone orders/General enquiries: 020 7219 3890  
Fax orders: 020 7219 3866  
Email: [bookshop@parliament.uk](mailto:bookshop@parliament.uk)  
Internet: <http://www.bookshop.parliament.uk>

**TSO @ Blackwell and other Accredited Agents**

ISBN 978-0-348-10517-9



9 780348 105179